COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

# Pwyllgor Chwilio a Thâl

Adroddiad Blynyddol
1af Awst 2022 –
31ain Gorffennaf 2023





## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol wedi cael ei baratoi gan y Pwyllgor Chwilio a Thâl ac y yn berthnasol i'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar y 1af o Awst 2022 i 31ain Gorffennaf 2023.

1.2 Mae'r Model Llywodraethu Corfforaethol a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Chwilio a Thâl gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd. Bydd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Coleg unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo i roi trosolwg o waith y Pwyllgor.

# 2.0 Cyfansoddiad a Aelodaeth y Pwyllgor

2.1 Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ar sail blynyddol. Roedd Cylch Gorchwyl ar gyfer 2022/23 yn gosod allan y cyfansoddiad canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd
- Hyd at 2 Dirprwy Cadeirydd o'r Bwrdd (os yw 2 Ddirprwy Gadeirydd yn cael ei benodi, bydd lleiafrif o 1 yn eistedd ar y Pwyllgor a'r opsiwn i'r ddau Ddirprwy Gadeirydd)
- Hyd at 2 aelod arall o'r Bwrdd
- Pennaethl

2.2 Mae aelodaeth i'r Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Bwrdd ac am 2022/23 penodwyd.

- Iwan Thomas (Cadeirydd a Cadeirydd y Bwrdd)
- Dylan Harries (Cadeirydd y Pwyllgor Awdit)
- Lisa Gostling
- Barry Walters (Pennaeth)

2.3 Catherine Freeman yw'r Swyddog Llywodraethu ac mae'n gweithredu fel Clerc y Pwyllgor.




# 3.0 Cyfarfodydd

3.1 Trefnir Gyfarfodydd y Pwyllgor ar sail bob hanner tymor a chynhelir cyfarfodydd eraill pan fod angen. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, cafwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor Chwilio a Thâl

3.2 Gosodir y Cworwm ar 2 aelod annibynnol ac roedd pob cyfarfod â chworwm yn y flwyddyn.

3.3 Presenoldeb yn gyfangwbl ar gyfer aelodau'r Pwyllgor oedd 86% (y flwyddyn blaenorol 88%).

3.4 Gyda eithriad y Pennaeth a'r Swyddog Llywodraethu, gofynnir i'r swyddogion i fynychu'r cyfarfodydd am eitemau penodol , ar gais y Pwyllgor.

# 4.0 Gwaith y Pwyllgor

4.1 Roedd y prif eitemau drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

**Eitemau Chwilio**

- Adolygiad y Cylch Gorchwyl
- Diweddariad Dechrau Tymor
- Presenoldeb a Hyfforddiant o Aelodau'r Bwrdd
- Aelodaeth Bwrdd a'r Pwyllgor a Llywodraethwyr Cyswllt
- Diweddariadau'r Pennaeth
- Arolygiad Sgiliau
- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Chwilio a Thâl
- Adolygiad o Eitemau Cyfrinachol 2021/22
- Arfarniad o SPHs a'r Swyddog Llywodraethu
- Amrywiaeth ar y Bwrdd
- Materion Llywodraethu
- Calendr o Gyfarfodydd a Chylchred Gwaith
- Adolygiad o Rolau Llywodraethwyr Cyswllt
- Prosiectau Cyfrinachol
- Adolygiad y Cadeirydd a'r Cynllun Gweithredu

**Eitemau Tâl**

- Taliadau Costau Byw i Staff, Dalwyr Swyddi Uwch a'r Swyddog Llywodraethu
- Materion Tâl

# 4.0 Gwaith y Pwyllgor yn Parhau

4.2 Trafododd y Pwyllgor rai eitemau pwysig yn ystod y flwyddyn ac mae wedi bod yn allweddol wrth ddarparu cyngor a chyfeiriad i'r Pennaeth a'r Tîm Arwain ar nifer o faterion allweddol i'r Coleg sy'n cefnogi cyfeiriad strategol y sefydliad.

4.3 Rhan o rôl y Pwyllgor yw nodi darpar ymgeiswyr i ddod yn aelodau o'r Bwrdd yn y dyfodol. Mae'r broses hon wedi cynnwys nodi bylchau sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen ar y Bwrdd a'r Pwyllgorau, yn ogystal â monitro presenoldeb ar sail chwe mis. Cwblhawyd arolwg sgiliau yn ystod 2022/23.

4.4 Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynllunio olyniaeth ac yn ymdrechu i sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei rannu rhwng Aelodau'r Bwrdd, gan gydnabod yr ymrwymiad amser sydd ei angen. Mae trafodaethau hefyd wedi canolbwyntio ar sut i gynyddu amrywiaeth ar y Bwrdd wrth symud ymlaen.

4.5 Mae datblygu rolau Llywodraethwr Cyswllt wedi bod yn fater i'w ystyried ac mae'r mecanweithiau adrodd wedi'u cryfhau trwy dreialu dull newydd. Bydd effeithiolrwydd y system newydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24.

4.6 Oherwydd cost hir o drafodaethau cyflog byw gydag Undebau Llafur, cafwyd trafodaethau sylweddol ynghylch y mater hwn er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor wneud argymhellion gwybodus i'r Bwrdd.

## 5.0 Rhaglen Waith 2023/24

5.1 Cafodd y rhaglen waith ar gyfer Bwrdd y Gorfforaeth ac is-bwyllgorau ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Mae'r cylch gwaith yn rhagweld materion i'w hystyried yn ystod y flwyddyn a materion blynyddol rhagweladwy. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhai newidiadau gan y bydd materion ad hoc yn anochel yn codi yn ystod y flwyddyn academaidd.

5.2 Bydd yr eitemau allweddol i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 yn cynnwys:

- Adolygiad Hunanasesu Bwrdd Corfforaethol
- Adolygiad o bresenoldeb a hyfforddiant Aelodau'r Bwrdd
- Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor a Chynllunio Olyniaeth
- Diweddariadau Llywodraethwr Cyswllt

## 6.0 Crynodeb

6.1 Trafodwyd rhai materion pwysig fel rhan o drafodaethau'r Pwyllgor, gan arwain at argymhellion allweddol i'r Bwrdd. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl o fewn y paramedrau a amlinellir yn yr Erthyglau a'r Offeryn Llywodraethu a'r Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl.

COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

www.colegsirbenfro.ac.uk